



Cyfarfod at Wraidd y Mater

y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Amddiffyn Plant

Microsoft Teams

5 Mai 2021

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	
Laura Armitt (LA)	Cynghorydd Gweithredol a Swyddog Cymorth Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Paula Hardy (PH)	Arweinydd Strategol ar gyfer Bregusrwydd a Dioddefwyr
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ) (CADEIRYDD)	Prif Weithredwr
Sarah Keefe (SK)	Swyddog Polisi
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Heddlu De Cymru	
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon (RB)	Dirprwy Brif Gwnstabl
Yr Uwch-arolygydd, Tim Morgan (TM)	Pennaeth Partneriaethau a Diogelu
Caroline Smart (CS)	Gwasanaethau Corfforaethol – Rheoli Corfforaethol
Y Ditectif Uwch-arolygydd Phil Sparrow (PS)	Pennaeth Adran Diogelu'r Cyhoedd
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol David Thorne (DT)	Pennaeth Troseddau Arbenigol
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu
Asiantaeth Allanol	
Pat Duke (PD)	Barnardo's

Rhif	Eitem	Cynnwys
1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Croesawodd LJ ACC Bacon a rhoi trosolwg o'r fformat ar gyfer y bwrdd.
2.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol: Uwchgyfeirio Rhagfyr 2020	<p>2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod uwchgyfeirio blaenorol yn gofnod gwir. Penderfynwyd y dylid ymdrin â'r camau gweithredu a'r argymhellion y tu allan i'r cyfarfod.</p> <p>2.2 Cyfeiriodd HJJ at gam gweithredu mewn perthynas â gwersi ehangach i'w dysgu o gwynion cyflogaeth AD. Awgrymwyd y gallai'r cyfarfodydd Gwersi a Ddysgwyd gynnig ateb i hyn, ond roedd HJJ wedi cael copi o Gylch Gorchwyl y cyfarfodydd hyn a gallai weld nad oedd cwynion cyflogaeth wedi'u cynnwys. Holodd pa ffordd arall y gellid rhannu gwersi ehangach i'w dysgu o gwynion cyflogaeth. Nododd CW fod cwynion cyflogaeth a chwynion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd CALG a bod opsiynau'n cael eu hystyried i'w cynnwys yn y cyfarfodydd Gwersi a Ddysgwyd.</p>
3.	Mewnbyn Partner: Astudiaethau Achos	<p>3.1 Amlinellodd HJJ adborth a gafwyd gan Ffocws Dioddefwyr drwy astudiaethau achos mewn perthynas ag amddiffyn plant, a oedd yn nodi'r gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu De Cymru wrth ymdrin â dioddefwyr. Tanlinellodd HJJ brif bwyntiau'r adborth, gan gynnwys y ffaith bod diffyg diweddariadau gan yr heddlu yn cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt.</p> <p>3.2 Gwnaeth HJJ wahodd PB i rannu safbwyntiau Barnardo's ar wasanaethau Amddiffyn Plant yn Heddlu De Cymru. Rhoddodd PB drosolwg o elusen Barnardo's a'r gwasanaethau a gynigir. Hefyd, rhannodd ei farn am weithio mewn partneriaeth â'r heddlu a thynnodd sylw at arferion da ynghyd â materion i'w hystyried yn ei farn ef. Roedd PB yn teimlo bod angen rhagor o hyfforddiant ar swyddogion er mwyn iddynt allu darparu'r lefel briodol o wasanaeth ac ymatebion i ddioddefwyr a chyflawnwyr. Cyfeiriodd PB at gwblhau Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd a nododd ei fod yn teimlo bod hwn yn faes i'w wella mewn rhai achosion. Roedd hefyd yn teimlo bod diffyg ymwybyddiaeth o brosesau ac, er enghraifft, nad oedd Barnardo's yn cael gwybod am achos weithiau nes y byddai'n rhy hwyr. Roedd PB yn teimlo bod angen gwella pethau fel prosesau cyfathrebu rhwng yr heddlu ac asiantaethau partner at ddibenion diogelu.</p> <p>3.3 Cyfeiriodd LJ at y diffyg cysylltiad a nodwyd gan PB a phwysigrwyd codi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion. Holodd JW a oedd swyddogion yn ymwybodol o'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael er mwyn gwneud atgyfeiriadau a ph'un a oedd hyn yn cael effaith ar y diffyg cysylltiad. Roedd LJ yn teimlo y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn mewn fforymau eraill ac y gellid ystyried hyfforddiant digidol posibl drwy fyrdau diogelu rhanbarthol. Roedd yn teimlo ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r mater hwn er mwyn ailymgysylltu a chreu prosesau gwell ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.</p>

4.	<p>Cyflwyniad a Data ar Amddiffyn Plant</p>	<p>4.1 Gwnaeth LJ wahodd DT i roi cyflwyniad ar Amddiffyn Plant o safbwynt yr heddlu. Rhoddodd DT drosolwg i'r bwrdd o ddata ar achosion Amddiffyn Plant a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'u canlyniadau o 2016 hyd yma. Nododd DT fod nifer yr atgyfeiriadau wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'i fod yn teimlo bod hyn o ganlyniad i'r cyfnodau clo amrywiol a'r cyfyngiadau mewn perthynas â COVID-19.</p> <p>4.2 Rhannodd DT waith parhaus yr heddlu mewn perthynas ag Amddiffyn Plant, gan gynnwys gwelliannau wrth ddefnyddio baneri a chymwysyddion lleol er mwyn sicrhau bod systemau'r heddlu yn gyson ac yn gywir. Nododd hefyd fod yr heddlu yn ystyried yr ymgyrch i atal troseddoli plant yn ddiangen a chynyddu canlyniadau cadarnhaol.</p> <p>4.3 Rhannodd DT ddata ynghylch achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a nododd fod nifer yr achosion wedi gostwng ers 2016. Fodd bynnag, roedd dulliau cofnodi data yn gyfrifol am hyn i raddau helaeth, am fod yr heddlu yn fwy gofalus a chywir wrth nodi unigolion sy'n wynebu risg ac ymdrin â nhw gan ddefnyddio dull gweithredu haenog. Dywedodd DT fod timau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant bellach yn rhan o bob sector o'r heddlu a'u bod yn gysylltiedig â'r timau Unigolion Coll. Nododd fod gan bob tîm brosesau sefydledig a oedd wedi parhau er gwaethaf heriau COVID-19. Nododd hefyd fod eiriolwyr o Barnardo's yn gweithio'n agos gyda'r timau hyn ac yn cynnal 'Cyfweliadau Dychwelyd Adref' gyda phlant sy'n wynebu risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Dywedodd DT y byddai contract yr heddlu gyda Barnardo's yn dod i ben ym mis Mawrth 2022. Byddai proses dendro yn cael ei chynnal eleni i ystyried estyn y contract gyda Barnardo's neu chwilio am ddarparwyr eraill.</p> <p>4.4 Rhannodd DT gynlluniau a heriau'r heddlu ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys mwy o ffocws ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant fel bygythiad a deall achosion o gamfanteisio'n droseddol ar blant, a welwyd gyntaf yn y model Llinellau Cyffuriau. Nododd hefyd y byddai'r heddlu yn gwella dealltwriaeth rheng flaen o Hysbysiadau Rhybuddio am Herwydio Plant (CAWN) a'r defnydd ohonynt, ac yn meithrin cydberthnasau ag asiantaethau partner, megis Ymddiriedolaeth St Giles.</p> <p>4.5 Roedd PS am nodi bod yr heddlu yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth swyddogion rheng flaen a dywedodd wrth y bwrdd fod dogfennau'n cael eu dosbarthu fel bod swyddogion yn ymwybodol o unigolion yn eu hardal sy'n wynebu risg. Ychwanegodd hefyd fod yr heddlu yn cynllunio digwyddiadau i oruchwylwyr rheng flaen er mwyn gwella gwasanaethau ac yn cydweithio â Phrifysgol Abertawe ar ap digidol a fyddai'n helpu i nodi rheibwyr ar-lein.</p> <p>4.6 Cyfeiriodd HJJ at gyfradd yr heddlu ar gyfer canlyniadau mewn perthynas â dioddefwyr nad ydynt yn cefnogi erlyniad. O ystyried nifer y dioddefwyr nad ydynt yn cefnogi erlyniad, holodd sut roedd hynny'n cymharu â throseddau eraill yn yr heddlu. Gofynnodd hefyd sut y gwnaed penderfyniadau dioddefwyr ynghylch peidio â chefnogi achos pan oedd y dioddefwr dan sylw yn blentyn. Nododd DT fod tebygrwydd rhwng troseddau rhywiol a throseddau treisgar o ran dioddefwyr yn dewis p'un a oeddent yn cefnogi erlyniad ai peidio. Nododd hefyd, lle roedd plentyn yn dioddef trosedd, fod ei oedran a'i allu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth yn ffactorau wrth fynd â'r achos yn ei flaen, ynghyd â chefnogaeth oedolyn priodol er enghraifft.</p> <p>4.7 Cyfeiriodd PH at y contract a oedd yn dod i ben ar gyfer eiriolwyr i blant a holodd a oedd unrhyw agweddau ar gefnogi plant o safbwynt</p>
----	--	---

		<p>diogelu y gellid eu hystyried fel rhan o'r contract hwnnw ac a allai'r heddlu adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen hon mewn perthynas ag agweddau eraill ar ddiogelu. Er enghraifft, a ellid gwneud gwaith ar ymyrryd yn gynnar mewn ymdrech i nodi pobl ifanc cyn iddynt wynebu argyfwng. Cydnabu DT bwyntiau PH a chytuno bod angen i drefniadau diogelu rhwng yr heddlu ac asiantaethau a ariennir gan y Comisiynydd fod yn gydgyssylltiedig a bod hyn yn cael ei ystyried. Cytunodd y ddau i ystyried darn o waith ar y cyd mewn perthynas â helpu i lywio dulliau diogelu yn y dyfodol.</p> <p>4.8 Holodd SG beth oedd ac nad oedd yn cael ei ystyried yn ganlyniad cadarnhaol a'r hyn a oedd yn digwydd i'r achosion sy'n weddill. Rhoddodd DT enghreifftiau a nododd, mewn rhai achosion, efallai na fyddai erlynwyr o'r farn bod troseddoli plant neu bobl ifanc er budd y cyhoedd.</p>
5.	Casgliadau ac Eitemau i'w Huwchgyfeirio	<p>7.1 Gorffennodd LJ drwy grynhoi pwyntiau allweddol, gan gynnwys pwysigrwydd ansawdd data, yr angen i barhau i adolygu data canlyniadau, a chwblhau Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd yn fanwl er mwyn sicrhau bod yr hyn a oedd yn cael ei nodi yn adlewyrchiad gwirioneddol o weithgarwch ar y rheng flaen. Hefyd, roedd angen defnyddio adnoddau ar y cyd rhwng yr heddlu a thîm y Comisiynydd a defnyddio mewnbyn gan asiantaethau partner yn effeithiol. Cymerir camau dilynol yn unol â hyn ar ôl y cyfarfod.</p> <p>7.2 Cynigiodd RB rannu diweddariad gweithredol â thîm y Comisiynydd am gynlluniau a datblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â materion amddiffyn plant er mwyn sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu gan yr heddlu a'r Comisiynydd. Awgrymodd y byddai'n ystyried y pwyntiau o'r cyfarfod ac yn dod yn ôl i amlinellu'r ffordd y gall yr heddlu fod yn ystyried ymdrin â nhw ar hyn o bryd.</p>
6.	Unrhyw Fater Arall	<p>8.1 Diolchodd LJ i aelodau'r bwrdd am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod ac i PD o Barnardo's am ei fewnbyn. Cadarnhaodd y byddai unrhyw gamau gweithredu yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod ac y byddai themâu allweddol yn cael eu hailystyried yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol.</p>

Tabl Camau Gweithredu

Dyddiad	Cyfarfod	Cam Gweithredu
5.5.21	Amddiffyn Plant	DCC Bacon i rannu diweddariad gweithredol â thîm y Comisiynydd am gynlluniau gweithredol a datblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas ag amddiffyn plant.

5.5.21

Amddiffyn Plant

HJJ i gysylltu â PB o Barnardo's i drafod ei adborth manwl.